



Yr Adran Saesneg ac  
Ysgrifennu Creadigol

---

Astudiaethau uwchraddedig mewn

# Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol

---

# Cynnwys

|                                    |      |
|------------------------------------|------|
| Croeso                             | t.1  |
| Pam dewis Aberystwyth?             | t.2  |
| Beth mae ein myfyrwyr yn ei ddweud | t.4  |
| Ei cyrsiau                         | t.8  |
| Ein hymchwil                       | t.12 |

# Croeso

Yma yn yr Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol, rydym yn darparu amgylchedd dysgu rhagorol. Mae myfyrwyr Aberystwyth ymhlith y rhai hapusaf a'r rhai sy'n cael eu haddysgu orau yn y wlad, ac rydym yn falch o gael ein rhestru'n gyson fel un o Adrannau Saesneg gorau'r DU am ansawdd yr addysgu a phrofiad y myfyrwyr.

Mae gan lenyddiaeth y pŵer i achosi newid gwirioneddol, ac yn Aberystwyth gallwch sianelu eich angerdd dros ddarllen ac ysgrifennu i wneud eich cyfraniadau eich hun at ein treftadaeth lenyddol ac at lenyddiaeth y dyfodol. Rydym yn sicrhau bod eich doniau yn cael eu meithrin, gan gynnig rhai cyfleoedd gyrfa gwych i chi. Mae ein graddedigion wedi arwyddo gyda rhai o brif asiantau llenyddol y DU ac wedi cyhoeddi gyda rhai o dai cyhoeddi mwyaf nodedig y byd, gan gynnwys Faber & Faber a Penguin.

Mae gennym lyfrgell wych yn y brifysgol, sydd, y tu hwnt i'r amrywiaeth arferol o argraffiadau ysgolheigaidd a beirniadol, yn gartref i gasgliad hynod ddiddorol o lyfrau prin sy'n bleser i unrhyw un sydd â diddordeb mewn darllen a'r grefft o gynhyrchu testun. Yn ogystal, rydym yn ffodus i gael un o'r llyfrgelloedd mwyaf yn y byd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, o fewn tafliad carreg, sef un o'r pum sefydliad hawlfraint â'r hawl i dderbyn copi o bob llyfr a gyhoeddir ym Mhrydain.

Mae'r Adran hefyd yn gartref i'r *New Welsh Review* - cylchgrawn llenyddol mwyaf blaenllaw Cymru - a'r *International Journal of Welsh Writing in English*. Trwy'r cysylltiadau hyn rydym yn cynnig cyfleoedd cyffrous i chi gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau ysgrifennu a chyhoeddi, interniaethau a chyfleoedd hyfforddi.

Bob blwyddyn rydym yn trefnu darlithoedd a gweithdai gan siaradwyr gwadd, sy'n cynnwys amrywiaeth o awduron, ysgolheigion a gweithwyr proffesiynol adnabyddus o bob cwr o'r byd. Ymhlith y rhai sydd wedi ymweld yn ddiweddar mae'r colofnydd a'r beirniad Caitlin Moran; y Bardd Llawryfog Carol Ann Duffy; Bardd Cenedlaethol Cymru, Gillian Clarke; y bardd arobryn, Andrew McMillan; y nofelwyr Niall Griffiths, Gareth L Powell a Sarah Hall; a'r blogiwr fideo poblogaidd a rheolwr cyfryngau cymdeithasol Vintage, Leena Normington.

Caiff Aberystwyth ei hadnabod yn rhyngwladol fel "prifddinas ddiwylliannol" Cymru, ac mae'n lle gwirioneddol arbennig i astudio ynddo. Nid yn unig mae'r Brifysgol wedi'i lleoli yn un o'r tirweddau mwyaf deniadol yn y DU, ond mae hefyd yn cynnig adnoddau academaidd a chyfleoedd dysgu rhagorol.

Edrychwn ymlaen at eich croesawu i'n cymuned uwchraddedig ac ymchwil ysgogol.

**Yr Athro Louise Marshall, Pennaeth yr Ysgol**



THE SUNDAY TIMES  
THE SUNDAY TIMES

CANLLAW  
PRIFYSGOLION  
DA  
2026

PRIFYSGOL Y  
FLWYDDYN AM  
GYNALIADWYEDD

## Gwybodaeth bwysig

Roedd yr wybodaeth a gyhoeddir yn y llyfryn hwn am y rhaglenni gradd yn gywir pan anfonwyd y ddogfen i'w argraffu (Ionawr 2026), ond gellid ei newid. Cyn gwneud cais, rydym yn cynghori darpar fyfyrwyr i edrych ar ein gwefan i gael yr wybodaeth a'r manylion diweddaraf am y cwrs gan gynnwys ein gofynion mynediad, er mwyn bod yn sicr fod y cynllun yn addas i'w gofynion.

# Pam dewis Aberystwyth?

Mae'r cyfleoedd arbenigol ar gyfer uwchraddedigion yn cynnwys:

- ⋄ Ein hencil ysgrifennu blynyddol a gynlluniwyd i ysgogi eich ymdrechion ymchwil ac ysgrifennu.
- ⋄ Y cyfle i weithio gyda sefydliadau llenyddol a diwylliannol blaenllaw megis New Welsh Review — cylchgrawn llenyddol mwyaf blaenllaw Cymru — a Honno: Gwasg Menywod Cymru.
- ⋄ Triapiau i wyl fyd-enwog y Gelli, sy'n nodwedd flynyddol yn ein calendr, a byddwch hefyd yn cael gostyngiad ym mhrisiau perfformiadau yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth.
- ⋄ Bod yn rhan o gyfres o seminarau rhyngweithiol lle mae staff, myfyrwyr a siaradwyr gwadd yn dod at ei gilydd i rannu ac arddangos eu hymchwil.
- ⋄ Gwireddu eich potensial creadigol gyda'r Antholeg MA. Bob blwyddyn, mae myfyrwyr yn cael y cyfle cyffrous i gyfrannu, dylunio a golygu antholeg sy'n arddangos eu gwaith creadigol a beirniadol arbennig.
- ⋄ Cynnig cymorth i sefydlu eich grwpiau darllen arbenigol eich hun, er mwyn sicrhau bod myfyrwyr uwchraddedig yn cael cyfle i chwarae rhan weithredol wrth ddatblygu diwylliant ymchwil cyffredinol yr Adran. Anogir cyfraniadau sy'n meithrin meysydd ymchwil sylfaenol yr Adran sef 'Lles Creadigol', 'Lle a Pherthyn', a 'Bywydau Emosiynol'.



- ⋄ **Ar gyfer myfyrwyr ymchwil yn arbennig:** cyfle i gymryd rhan mewn gwaith a gaiff ei feithrin gan ganolfannau ymchwil arbenigol, megis Canolfan Lles Creadigol yr Adran, a chanolfannau ymchwil cytras eraill o fewn y Brifysgol, megis y Ganolfan Astudio Symudedd Pobl, y Ganolfan Meddwl Materol, a Chanolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru.
- ⋄ **Ar gyfer myfyrwyr ymchwil yn arbennig:** cyfle i weithio fel tîm i gynllunio cynhadledd flynyddol yr Adran i uwchraddedigion – er mwyn arddangos gwaith, diddordebau a chyflawniadau eich cymuned gradd ymchwil mewn unrhyw flwyddyn benodol.
- ⋄ **Ar gyfer myfyrwyr ymchwil yn ddiweddarach yn eu graddau:** rydym yn cynnig cyfleoedd i ennill profiad cyflogedig o addysgu ar lefel prifysgol, gan gynnwys gweithdai, seminarau, darlithoedd, a marcio gwaith myfyrwyr israddedig. (Mae'r cyfleoedd hyn yn amrywio yn ôl yr hyn sydd ar gael, flwyddyn ar ôl blwyddyn.) Yn ogystal, gall myfyrwyr ymchwil sy'n ymwneud ag addysgu gymryd rhan yn y rhaglen Addysgu i Uwchraddedigion ym Mhrifysgol Aberystwyth (AUMA), sydd wedi'i hachredu gan yr Academi Addysg Uwch ar lefel Cymrodoriaeth Gysylltiol.

# Beth mae ein myfyrwyr yn ei ddweud

## Metin Mitchell

### PhD

Ni allaf argymhell y PhD mewn Ysgrifennu Creadigol ym Mhrifysgol Aberystwyth ddigon. Yn ogystal â bod yn ffodus o gael arolygydd gwych (y bardd Matthew Francis), cefais gefnogaeth wych gan yr Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol gyfan. Pan ddaeth yr amser i sefyll yr arholiad llafar, roeddwn i wedi cael fy mharatoi mor dda ar ei gyfer, nes, yn y pen draw, ei fod yn teimlo fel sgwrs bleserus ac adeiladol rhwng cydweithwyr academiaidd. Cefais hefyd anogaeth aruthrol gyda fy nofel fy hun, *The Crescent Moon Fox*, a gyhoeddwyd yn fy flwyddyn ar ôl cwblhau fy PhD.

Byddwn hefyd yn dweud bod Aberystwyth yn berl o brifysgol. Yr hyn rwy'n ei hoffi'n arbennig amdani yw'r ethos o ganolbwyntio ar ddysgu (yn hytrach na gwneud elw o fyfyrwyr), y mynediad rhywydd at Lyfrgell Genedlaethol Cymru - sy'n amhrisiadwy i fyfyrwr PhD - a'r pleser pur o gael eich amgylchynu gan dirwedd mor brydferth.



## Freya Blyth

### MA Ysgrifennu Creadigol

Rwyf wedi caru'r cwrs yma ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae'r adran wir yn gymuned sy'n helpu i feithrin a datblygu ein harferion creadigol yn ogystal â'n datblygiad fel awduron! Mae'r addysgu mor wych, alla i ddim dweud wrthyf faint o drafodaethau a dadleuon gwych rydyn ni wedi'u cael dros destunau ffeministaidd ar foreau Llundain!

Nid oes unman arall y byddai'n well gennyf fod wedi astudio ynddo, ac mae'r cyfuniad o'r gymuned a'r dref ei hun ynghyd â'r gefnogaeth a deimlaf yma heb ei hail. Byddwn i'n argymhell yn gryf i unrhyw un sy'n ystyried ymuno â'r cwrs hwn ddod yma, gan y byddant yn cael eu croesawu i'r gymuned sydd wedi dod yn gartref i mi, a dyma hefyd lle rydw i wedi agor fy siop lyfrau annibynnol, ffeministaidd fy hun, *Bookshop By The Sea*!



## Natalia Elliot

### MA Astudiaethau Llenyddol

Er i mi wneud cais i astudio Seicoleg yn wreiddiol, rwy'n falch fy mod i wedi penderfynu gwneud y cwrs MA Saesneg yn y pen draw! Roedd yn brofiad hynod ddiddorol, yn enwedig oherwydd yr amrywiaeth o bynciau a addysgir ar y cwrs.

Roedd Saesneg wastad yn bwnc yr oeddwn i'n ei fwynhau, felly ar ôl cwblhau fy nghwrs israddedig, penderfynais barhau gyda'm hastudiaethau a gwneud MA. Un o'm hoff bethau am y cwrs oedd pa mor fywiog a hamddenol y gallai rhai o'r trafodaethau fod - yn enwedig ar y modiwl 'Women, Fiction and Female Community 1660-1792'.

Roedd pob modiwl yn llawn cyd-destun diddorol a manwl — pethau na fyddwn i fel meddwl amdany'n nhw fel arall — ac roedd hynny'n golygu nad oedd y cwrs byth yn ddiiflas.

Ar ôl cwblhau fy MA, es ymlaen i gael gyrfa ym maes cyhoeddi, lle mae rhywfaint o'r gwaith yn cynnwys ymchwil, gweithio yn unol â therfynau amser, a sgiliau rhyngbersonol, ac rwy'n teimlo bod yr MA ynghyd â'r staff hyfryd yn Aberystwyth wedi fy mharatoi'n dda iawn ar gyfer hyn.



## Abbie Ena-Smith

### MA Astudiaethau Llenyddol

Er bod gen i ddiddordeb arbennig mewn astudiaethau cwiar a Fictoraidd, rwy'n mwynhau amrywiaeth eang o lenyddiaeth o wahanol gyfnodau hanesyddol, ac mae fy nghwrs wedi caniatáu i mi archwilio hyn drwy'r amrywiaeth gyfoethog o fodiwlau dewisol sydd ar gael.

Yn ogystal â'r amrywiaeth eang o fodiwlau ar y cwrs, roedd staff yr adran ymhlith y prif resymau dros ddewis astudio yn Aberystwyth. Yn ogystal â bod yn agos-atoch ac yn frwdfrydig, mae pawb yn yr adran yn arbennig o gefnogol o'r dulliau yr hoffech chi eu defnyddio yn eich dysgu eich hun. Yn ystod fy ngradd, rwyf wedi gallu mireinio fy sgiliau ymchwil, gyda'r nod o astudio ar gyfer PhD. Yn ogystal, rwyf wedi gallu cryfhau fy sgiliau proffesiynol trwy lunio portffolios academiaidd a chymryd rhan mewn cyflwyniadau tebyg i'r rhai a geir mewn cynadleddau. Bydd y sgiliau hyn yn fy helpu i fynd ymhellach yn yr yrfa yr wyf am ei dilyn.

Un o'r pethau mwyaf cadarnhaol am y profiad hwn i mi yw'r gymuned glos o fewn yr adran, sy'n gwneud i mi deimlo fy mod yn cael fy nghefnogi ac yn fy annog i wneud fy ngorau.



## Eva Morris

### MA Astudiaethau Llenyddol

Mae fy MA gyda'r adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol wedi bod yn hollol gefnogol a chydweithredol.

Dechreuais ar y MA yn ystod y pandemig, ac ers hynny rwyf wedi derbyn cefnogaeth gyson a dibynadwy gan dîm yr adran. Roedd penderfynu astudio'n rhan-amser yn y flwyddyn gyntaf yn broses hawdd a didrafferth, a phan oedd angen i mi gymryd blwyddyn i ffwrdd o'm hastudiaethau, cafodd hynny ei gefnogi'n llwyr hefyd, ac roedd yn hawdd ei reoli.

Arhosodd fy nhiwtor personol mewn cysylltiad â mi drwy gydol y flwyddyn honno i ffwrdd, ac fe wnaeth hynny wneud y trosglwyddiad yn ôl i'r brifysgol yn llawer llai straenus nag yr oeddwn i'n ei ddisgwyl, a chaniataodd i mi ymgartrefu'n ôl yn yr adran yn rhwydd.

Ni allaf ddiolch digon i'r Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol am eu tîm gwych, a'u cyfathrebu cyson trwy gydol y radd, a dyna oedd y prif reswm y dewisais aros yn y brifysgol ar gyfer fy ngradd MA.

Cefnogwyd yr amrywiaeth yn y dewisiadau modiwl yn dda gan yr adran. Yn nodweddiadol, mae sawl copi o lyfrau'r modiwlau ar gael yn Llyfrgell Hugh Owen, sy'n gwneud popeth yn llawer haws, ac mae'r rhestr ddarllen gyfan ar gael, naill ai'n ffisegol neu'n rhithiol, gan hwyluso astudio ac aseiniadau'n fawr.

Mae Aberystwyth a'r brifysgol gyfan yn lle hyfryd - mae'r gymuned leol a'r gymuned fyfyrwyr yn wych, ac mae'r amgylchedd o'ch cwmpas yn wirioneddol drawiadol. Mae'r profiad yma yn wych, ac rwy'n hynod ddiolchgar fy mod wedi bod yn rhan o'r gymuned.



## Emma Butler-Way

### PhD

Dewisais astudio am y ddoethuriaeth yn y fan yma oherwydd fy mod wedi cael profiad gwych yn yr Adran Saesneg wrth astudio am fy ngraddau BA ac MA, a phan ddaeth y cyfle i aros yn hwy yn yr adran a'i hamgylchedd difyr, gofalgwr, gwnes fy ngorau glas i fanteisio i'r eithaf arno. Dewisais Aberystwyth oherwydd yr awyrgylch bywiog a chroesawgar - yn enwedig yn yr Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol - a'r cyfleoedd allgyrsiol amrywiol oedd ar gael, o'r Ganolfan Gerdd i'r dosbarthiadau crochenwaith sydd ar gael yng Nghanolfan y Celfyddydau. Roedd bod ger y môr yn atyniad mawr hefyd, er gwaethaf y tywydd garw a ddaw yn sgil hynny ym misoedd y gaeaf!

Fel myfyriwr PhD, roeddwn yn gallu cofrestru ar gynllun AUMA y Brifysgol, a llwyddais i ennill cymhwyster addysgu (AFHEA) yn sgil hynny. Bu ennill y cymhwyster hwn, a mynd i'r sesiynau hyfforddi ar ei gyfer, o gymorth imi ddatblygu fy nulliau addysgu fy hun, wrth i mi ymgymryd â gwaith addysgu yn yr Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol. O safbwynt ymchwilydd, mae cyfleoedd i gyflwyno gwaith mewn seminarau ymchwil mewnol a chynadledau allanol wedi bod yn amhrisiadwy yn natblygiad fy ymarfer ymchwil.



## Aly Cuddy

### MA Ysgrifennu Creadigol

Mynychais Brifysgol Aberystwyth fel myfyriwr aeddfed a dilyn gradd Ysgrifennu Creadigol cyn symud ymlaen i radd MA. Roedd yr MA yn gam naturiol ymlaen a ganiataodd i mi barhau i ymchwilio i'r meysydd o'm dewis gyda mwy o annibyniaeth wrth barhau i fanteisio ar arweiniad gwerthfawr tiwtoriaid rhagorol yr adran.

Er bod gan bob modiwl yn ystod fy amser yn Aberystwyth ei bwysigrwydd arbennig ei hun, yr hyn a wnaeth sefyll allan drwy gydol y cwrs oedd y rhyddid i fynegi'n greadigol, ynghyd â'r cyfle i wneud ymchwil manwl, gyda'r budd ychwanegol o ehangu fy rhwydwaith academaidd a'm gorwelion. Fe wnaeth dull rhyngddisgyblaethol y cwrs ddatblygu gwerthfawrogiad cyfannol o'r grefft a ddewisais, tra bod y cyfleoedd cydweithredol o fewn cymuned fyfyrwyr fywyg yn annog creadigrwydd, meddwl beirniadol ac arloesedd.

# Ein cyrsiau

## Graddau a ddysgir

|                            |      |
|----------------------------|------|
| Astudiaethau Llenyddol, MA | t.9  |
| Ysgrifennu Creadigol, MA   | t.10 |

## Graddau ymchwil

|     |      |
|-----|------|
| PhD | t.11 |
|-----|------|

# Astudiaethau Llenyddol

## MA

Mae'r radd hon yn cynnig profiad ysgogol o lenyddiaeth Saesneg yn ei dyfnder a'i hamrywiaeth gyfoethog, gyda'r cyfle i ddatblygu arbenigedd mewn meysydd arbenigol o'ch dewis eich hun.

Mae ein modiwlau dewisol arbenigol yn cael eu tywys gan ymchwil ac yn rhoi cipolwg diddorol ar lenyddiaeth cyfnodau penodol, diwylliannau cenedlaethol, a thraddodiadau llenyddol. Mae diddordebau ymchwil staff yn amrywiol ac yn esblygu'n barhaus, felly byddwch yn darganfod amrywiaeth eang o ddulliau o ymdrin â lenyddiaeth a hanes diwylliannol sy'n cyfuno ysgolheictod uwch â meddwl beirniadol.

Trwy astudio'r datblygiadau diweddaraf ym maes damcaniaeth feirniadol a methodoleg ymchwil, byddwch yn meithrin y sgiliau angenrheidiol i ymgymryd â'ch traethawd hir MA 15,000 o eiriau, sy'n ddarn helaeth o ymchwil feirniadol yn eich dewis faes. Byddwch hefyd yn datblygu llu o sgiliau trosglwyddadwy i'w defnyddio mewn amrywiaeth o gyd-destunau academiaidd neu swyddi eraill.

Byddwch yn elwa o:

- cyfle i ddysgu yng nghwmni ymchwilwyr sydd wedi ennill bri rhyngwladol am eu cyfraniadau at ddysg ac am ddatblygu'r ddisgyblaeth
- traddodiad cryf o addysgu arbenigol ym meysydd ysgrifennu menywod, daearyddiaeth lenyddol, ysgrifennu LGBTQIA+, Rhamantiaeth, lenyddiaeth am Gymru neu gan Gymry, gwyladwriaeth, lenyddiaeth oes Fictoria, Moderniaeth, ac Ôl-foderniaeth
- hyblygrwydd i gyfuno'ch astudiaethau lenyddol ag ymarfer creadigol mewn meysydd sy'n cyd-fynd yn union â'r prif feysydd rydych yn canolbwyntio arnynt
- cyfleoedd i weithio gyda sefydliadau lenyddol a diwylliannol o bwys megis *New Welsh Review* - cylchgrawn lenyddol pennaf Cymru - a Chanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth
- hawl i ddefnyddio Llyfrgell Genedlaethol Cymru, un o bum llyfrgell hawlfraint y Deyrnas Unedig
- cyfle i gyfrannu at ein blodeugerdd flynyddol fel aelod o'r tîm golygyddol sy'n paratoi'r flodeugerdd i gael ei chyhoeddi, neu fe allwch gyfrannu eich deunydd creadigol eich hun.

## Ffeithiau allweddol



**Cod y cwrs:** Q392



**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser)



**Amser cyswllt:** Tua 10-14 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.

# Ysgrifennu Creadigol

## MA

Bydd y cynllun gradd hwn yn eich cynorthwyo i ddatblygu eich gweledigaeth greadigol a'ch dawn ysgrifennu trwy gyfrwng rhaglen gytbwys o ddarllen, dadansoddi a gweithdai ysgrifennu. Byddwch yn gweithio mewn grwpiau bach gydag awduron proffesiynol, ac yn datblygu eich gwaith creadigol yn ogystal â'ch dealltwriaeth o agweddau ymarferol ysgrifennu a chyhoeddi.

Cewch eich cyflwyno gan ein darlithwyr i amrywiaeth o awduron rhyddiaith a barddoniaeth gyfoes a fydd yn sbarduno eich twf creadigol chi'ch hun, gan adael ichi fagu hyder ac aeddfedrwydd yn eich dull o ysgrifennu. Byddwch hefyd yn cymryd rhan mewn trafodaethau ynglŷn â thechneg ac yn ymchwilio i'r materion ehangach sy'n gysylltiedig â'r arfer o ysgrifennu, megis arwyddocâd genre a threfniadau'r byd cyhoeddi. Mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys elfen feirniadol gref, sy'n eich annog i fyfyrwyr ar eich dulliau creadigol eich hun yn ogystal â dulliau pobl eraill.

Fe gewch hyfforddiant unigol gan staff rhagorol yr adran, bob un ohonynt yn awduron creadigol cyhoeddiedig. O dan eu harweiniad hwy, byddwch yn cynhyrchu portffolio sylweddol ar ffurf casgliad o farddoniaeth neu ddarn estynedig o ryddiaith.

Byddwch yn elwa o:

- cyfleoedd i ddysgu ochr yn ochr â thîm o awduron adnabyddus arobryn sy'n gweithio ar draws ystod eang y meysydd creadigol
- hyblygrwydd i gyfuno'ch ysgrifennu creadigol ag astudiaethau llenyddol mewn meysydd sy'n cyd-fynd yn union â'r prif feysydd rydych yn canolbwyntio arnynt
- cyfle i fanteisio ar addysgu arbenigol a gwybodaeth eithriadol am farddoniaeth gyfoes, ffuglen trosedd, ysgrifennu bywyd, arswyd, ysgrifennu natur, llenyddiaeth pobl dduon alltud, a ffuglen ôl-drefedigaethol
- cyfleoedd i weithio gyda sefydliadau llenyddol a diwylliannol o bwys megis *New Welsh Review* - cylchgrawn llenyddol pennaf Cymru - a Chanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth
- mynediad digyfngiad i Lyfrgell Genedlaethol Cymru - un o ddim ond pum llyfrgell hawlfraint y Deyrnas Unedig
- cyfle i gyfrannu'ch deunydd creadigol eich hun at ein blodeugerdd flynyddol, ac i weithio fel aelod o'r tîm golygyddol sy'n paratōi'r flodeugerdd i gael ei chyhoeddi.

## Ffeithiau allweddol



**Cod y cwrs:** Q394



**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser)



**Amser cyswllt:** Tua 10-14 awr yr wythnos yn y ddau semester cyntaf, yna bydd y myfyriwr a'r tiwtor yn cytuno rhyngddynt ar gyfnodau'r amser cyswllt.

# PhD

Rydym yn croesawu cynigion am ddoethuriaethau ym mhob maes, o lenyddiaeth Ganoloesol i lenyddiaeth yr 2020au, ac mewn ystod eang o fathau o Ysgrifennu Creadigol. Mae ein hadran yn dwyn ynghyd feirniaid arobryn sy'n gweithio ar lenyddiaethau o'r byd-eang i'r lleol gydag awduron arobryn; mae ein canolfannau ymchwil yn gartref llawn ysbrydoliaeth ac yn sylfaen i ddatblygiad academiaidd a gyrfaol ein myfyriwyr doethurol.

Mae meysydd arbenigedd penodol yr Adran yn cynnwys:

- barddoniaeth gyfoes
- ffuglen trosedd
- ysgrifennu am fywyd
- arswyd
- ysgrifennu am natur
- llenyddiaeth y diaspora Du
- ffuglen ôl-drefedigaethol
- ysgrifennu gan fenywod
- llenyddiaeth plant
- daearyddiaeth lenyddol ac ecofeirniadaeth
- ysgrifennu cwiâr
- y cof ac ôl-atgofion
- llenyddiaeth Saesneg o Gymru
- lenyddiaethau gwyliadwriaeth
- llenyddiaeth lwerddon
- llenyddiaeth Gothig a storïau ysbrydion
- seicdreiddio
- llenyddiaeth seciwlar y cyfnod canoloesol diweddar
- y canol oesoedd heddiw
- Rhamantiaeth
- llenyddiaeth Fictoriaidd
- moderniaeth a moderniaeth ddiweddar
- ôl-foderniaeth.

Dyfernir PhD mewn Astudiaethau Llenyddol ar ôl cwblhau traethawd ymchwil 80-100,000 o eiriau yn foddhaol, gydag arholiad viva voce wedi hynny.

Ceir dwy ran i ddoethuriaeth mewn Ysgrifennu Creadigol: y gwaith creadigol (sef 75-80,000 o ryddiaith neu 60 tudalen o farddoniaeth) yn ogystal ag esboniad beirniadol 20,000 o eiriau. Dyfernir PhD mewn Ysgrifennu Creadigol ar sail cwblhau'r ddwy elfen ysgrifenedig hyn yn foddhaol, gydag arholiad viva voce wedi hynny.

Ar gyfer doethuriaethau Astudiaethau Llenyddol ac Ysgrifennu Creadigol fel ei gilydd, y cyfnod cofrestru arferol yw tair blynedd (amser llawn) neu bum mlynedd (rhan-amser). Disgwylir i fyfyrwyr llawn-amser gyflwyno'r traethawd ymchwil ymhen pedair blynedd ar ôl cofrestru, a disgwylir i fyfyrwyr rhan-amser gyflwyno'r traethawd ymchwil ymhen saith mlynedd ar ôl cofrestru. Disgwylir i fyfyrwyr ymchwil llawn-amser astudio yma yn Aberystwyth. Gall myfyriwyr ymchwil rhan-amser astudio o bell, ond mae'n bosibl y bydd angen iddynt fod yn bresennol mewn sesiynau ar y campws o bryd i'w gilydd.

Mae'n rhaid i'r holl ymgeiswyr am ddoethuriaeth astudio detholiad o fodiwlau sgiliau ymchwil a datblygiad proffesiynol a gynigir gan Ysgol Graddedigion Prifysgol Aberystwyth. Astudir y modiwlau hyn fel arfer yn ystod dwy flynedd gyntaf y cymhwyster. Dan arweiniad eu harolygwyr, disgwylir i'r myfyriwyr ddatblygu sgiliau ar lefel uchel er mwyn trin prosiect estynedig sy'n gwneud cyfraniad gwreiddiol a chadarn i'r agwedd ar Astudiaethau Llenyddol neu Ysgrifennu Creadigol a ddewiswyd gan y myfyriwr.

I gael rhagor o wybodaeth, neu i drafod yr opsiynau ar gyfer gradd ymchwil fyrrach MPhil, cysylltwch â ni'n uniongyrchol ar [english@aber.ac.uk](mailto:english@aber.ac.uk)

# Ein hymchwil

Mae ein staff yn cyhoeddi ymchwil mewn ystod eang o feysydd o fewn astudiaethau llenyddol ac ysgrifennu creadigol, ac maent ar flaen y gad yn eu disgyblaethau a'u harferion. Mae addysgu a goruchwyllo yn yr Adran yn cael eu harwain gan ymchwil ac mae cyfres ffyniannus o seminarau ymchwil yn rhoi cyfle i fyfyrwyr wrando ar staff, siaradwyr gwadd a myfyrwyr ymchwil yn trafod eu gwaith yn anffurfiol, neu i gyflwyno papurau a dynnwyd o waith sydd ar y gweill.

Mae ymchwil yr Adran wedi'i rannu'n dair thema eang:

## 1. Lles Creadigol

Mae'r Ganolfan Lles Creadigol yn cydnabod pwysigrwydd academiaidd cynyddol ymchwil lles ar gyfer deall cymdeithas sifil a'i amcanion, ynghyd ag arwyddocâd cynyddol defnyddio lles fel ffordd allweddol o fesur cynnydd cymdeithasol ac economaidd. Mae canolbwynt penodol y Ganolfan ar ymgysylltiad creadigol ag iechyd y cyhoedd yn ceisio hyrwyddo a hwyluso ymchwil ymarfer creadigol amlddisgyblaethol i lywio a chael effaith gadarnhaol ar bolisi ac ymarfer mewn lleoliadau megis iechyd, addysg, gwaith ieuencid a grwpiau cymunedol.

## 2. Bywydau Emosiynol

Mae'r maes hwn o ymchwil yr Adran yn canolbwyntio ar y ffyrdd y mae ein harferion creadigol a beirniadol yn archwilio ac yn cynrychioli ystyron amrywiol profiad emosiynol. Mae'n gofyn sut mae llenyddiaeth, yn y gorffennol a heddiw, yn ein galluogi i ymgysylltu â theimladau amdanom ni ein hunain ac eraill. Mae'n archwilio sut mae awduron yn darganfod ac yn rhoi llais i ystod eang o brofiadau emosiynol - profiadau y dywedir mor aml eu bod 'tu hwnt i eiriau', megis galar, dryswch, llawenydd neu ysbrydoliaeth - ac yn gwneud y profiadau hynny'n rhan o'r gymuned ehangach.

## 3. Lle a Pherthyn

O dan y thema hon, mae staff yn mynd ar drywydd ymchwil i'r ffyrdd amrywiol y mae llenyddiaeth ac arfer ysgrifennu creadigol yn ymwneud â lleoliadau go iawn a dychmygol ac yn codi cwestiynau am berthyn. Mae ein hymchwil yn y maes hwn yn ymdrin â'r syniadau hyn yn amrywiol o ran cof, gwreiddiedigrwydd/diwreiddiedigrwydd daearyddol, a chymunedau go iawn neu ddychmygol - gan gynnwys cymunedau o ddiddordeb, oedran, rhyw, rhywioldeb ac ethnigrwydd. Mae'r gwaith hwn yn rhoi canolbwynt penodol i arbenigedd yr Adran ym maes Ysgrifennu am Gymru yn Saesneg.



Mae gwaith yr Adran hefyd yn cwmpasu dwy ganolfan ymchwil arall:

### Canolfan David Jones (DJC)

Mae Canolfan David Jones yn hyrwyddo maes beirniadol o foderniaeth Gymreig sydd wedi'i esgeuluso ac yn tynnu sylw at y potensial enfawr ar gyfer ymchwil arloesol yn yr archifau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Sefydlwyd y Ganolfan yn 2011, ac mae wedi bod yn ganolfan ryngwladol ar gyfer ymchwil ac ymarfer ym maes astudiaethau modernaidd Cymreig, yn ogystal ag adlewyrchu synergeddau ymchwil cryf yn yr Adran ac ar draws y Brifysgol. Ers 2011, mae chwe chynhadledd gan Ganolfan David Jones wedi'u cynnal yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Yn 2016 cynhaliodd y Ganolfan lansiad cofiant uchel ei fri David Jones gan yr Athro Thomas Dilworth.

### Canolfan Barddoniaeth Gyfoes

Mae'r Ganolfan Barddoniaeth Gyfoes yn ganolfan ymchwil gydweithredol, draws-sefydliadol. Mae'n grŵp beirniadol-greadigol sydd wedi'i neilltuo i ddiddordebau beirdd, beirniaid barddoniaeth, beirdd sydd hefyd yn feirniaid a beirniaid sydd hefyd yn feirdd. Mae gan y Ganolfan ddiddordeb arbennig (ond nid unigryw) mewn ymchwilio i farddoni arbrolol a pherfformio a'u barddones. Wedi'i sefydlu yn 2006 gan yr Athro Peter Barry a'r Athro Ian Davidson, mae'r Ganolfan heddiw yn cael ei arwain gan bum cyd-gyfarwyddwr ym Mhrifysgolion Aberystwyth, Bangor, Brighton, Plymouth, a Surrey.

Yr Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol,  
Prifysgol Aberystwyth,  
Adeilad Hugh Owen,  
Aberystwyth, SY23 3DY

+44(0) 1970 62 1537

english@aber.ac.uk

/ecw.aberystwyth.co.uk



Wedi'u dylunio a'u cynhyrchu gan  
Marchnata Byd-eang a Denu Myfyrwyr,  
Prifysgol Aberystwyth 2026.



Argraffwyd ar bapur  
wedi'i ailgylchu 100%